# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Siambr y Cyngor - Neuadd y Sir, Llandrindod**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 7 Mawrth 2019**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

01/03/2019

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. COFNODION

Awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo cofnodion y cyfarfodydd diwethaf a gynhaliwyd ar 22 Ionawr a 24 Ionawr fel cofnodion cywir.
(Tudalennau 1 - 56)

### 3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb oddi wrth Aelodau mewn perthynas ag eitemau sydd i'w hystyried ar yr agenda.

### 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau oddi wrth Gadeirydd y Cyngor.

### 5. CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau oddi wrth yr Arweinydd.

| 6. | BRIFF GAN Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn briff oddi wrth y Prif Weithredwr.

| 7. | CWESTIYNAU GAN AELODAU'R CYHOEDD |
|---|---|

7.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion yr Economi a Chynllunio oddi wrth Elizabeth Newman**

Ai rhywbeth yn y gorffennol yw'r angen i bob Amod Cynllunio gael ei gyflawni cyn i'r gwaith ddechrau ym Mhowys bellach?
(Tudalennau 57 - 58)

7.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion yr Economi a Chynllunio oddi wrth Iain Aitken**

Mae Cyngor Powys wedi synnu a siomi'r cyhoedd ar hyd a lled Cymru trwy wrthod gorfodi Fferm Wynt Hendy i gydymffurfio er gwaethaf mynd yn groes i'r ddeddf cynllunio sawl tro. Yn gryno:

- Mae'r datblygwr wedi torri Amod 2 trwy beidio â chadw at y cynlluniau a ganiateir: mae'r safle adeiladu a'r trac yn gyfan gwbl y tu allan i linell goch y safle;
- Mae'r datblygwr wedi cyflwyno elfen newydd, sef llain galed ar gornel Ogledd-ddwyreiniol y Comin, ond ni chyflwynodd unrhyw gais am gynllunio na chaniatâd Deddf Tir Comin. Mae'n rhaid bod y Rheolwr Datblygu yn gwybod yn iawn bod rhywfaint o 'waith cyfyngedig' ar y comin yn hanfodol er mwyn caniatáu i rannau o'r tyrbinau gyrraedd y safle;
- Mae'r datblygwr wedi torri Amod 49 trwy ddechrau'r gwaith adeiladu heb ganiatâd gofynnol y Ddeddf Tir Comin;
- Yn wir, mae'r datblygwr bron wedi cwblhau gosod tyrbin cyn i unrhyw un o'r amodau uchod gael eu cyflawni.

Dywedwyd wrth y cyhoedd dro ar ôl tro na fyddai'n 'hwylus' eu gorfodi.

A all yr Aelod Portffolio ar faterion yr economi a chynllunio, y Cyng Martin Weale, rannu manylion manwl y meini prawf a ystyriwyd wrth asesu 'hwylustod' gorfod yn erbyn y datblygwr yma?
(Tudalennau 59 - 60)

7.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau oddi wrth Stephen Meadowcroft**

A wnaiff y Cynghorydd rannu â ni dueddiadau cyfredol y 6 mis diwethaf o ran ailgylchu yng Ngogledd Powys, ac yn arbennig y tunelli ar gyfer pob

defnydd gwastraff y mae'n bwriadu ei brosesu trwy'r Cyfleuster Ailgylchu yn Abermiwl, pan ddaw hwnnw yn weithredol?
(Tudalennau 61 - 62)

7.4. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd, Ailgylchu ac a Asedau oddi wrth Jeffrey Matthews**

Bydd Cynghorwyr Powys yn sylweddoli'n iawn bod newidiadau cyflym bron iawn yn wythnosol, i'r dulliau, y dechnoleg a'r rheoliadau llywodraethu ynghylch y diwydiant gwastraff. Yma ym Mhowys, mae'r gwaith ailgylchu yn cael ei wneud yn 'allanol' ar hyn o bryd, a hynny'n bur llwyddiannus. Ar y busnesau hynny y bydd y baich yn disgyn o ran costau newidiadau drud yn y diwydiant gwastraff yn y dyfodol. Yn sgil y ffaith mai prif ddyletswydd Powys yw casglu gwastraff, yn hytrach na rhedeg busnesau sy'n cystadlu ag eraill o fewn y diwydiant gwastraff, ai penderfyniad doeth ar ran y cyngor yw buddsoddi ymdrech enfawr a miliynau o bunnoedd mewn sefyllfa sy'n newid mor gyson yn y cyfnod sydd ohoni gyda'r holl doriadau?
(Tudalennau 63 - 64)

| 8. | **Y GYLLIDEB AR GYFER 2019 - 2020, Y STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG AR GYFER 2019 - 2024 A'R RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2019 - 2024** |
|---|---|

Ystyried y Gyllideb ar gyfer 2019 - 2020, y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2019 - 2024 a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019 - 2024.
(Tudalennau 65 - 1106)

| 9. | **PENDERFYNIAD TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2019/20** |
|---|---|

Cymeradwyo'r penderfyniad ar Dreth y Cyngor, a gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2019/2020.
(Tudalennau 1107 - 1130)

| 10. | **DATGANIAD BLYNYDDOL Y DDARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW 2019/20** |
|---|---|

Ystyried Datganiad Blynyddol y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw 2019/20.
(To Follow)

| 11. | **TROSGLWYDDIADAU** |
|---|---|

11.1. **Trosglwyddiad ar gyfer Prosiectau Ysgolion: Estyniad Ysgol Uwchradd Crughywel**

(Tudalennau 1131 - 1134)

11.2. **Trosglwyddiad ar gyfer Ty Ladywell, Y Drenewydd**

(Tudalennau 1135 - 1138)

11.3. **Trosglwyddiad ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai: Safon Ansawdd Tai Cymru**

(Tudalennau 1139 - 1142)

| 12. | DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R STRATEGAETH BUDDSODDI BLYNYDDOL |
|---|---|

Ystyried Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol.
(Tudalennau 1143 - 1168)

| 13. | DATGANIAD POLISI CYFLOG 2019 - 2020 |
|---|---|

Ystyried Datganiad Polisi Cyflog ar gyfer 2019 – 2020.
(Tudalennau 1169 - 1190)

| 14. | RHYBUDD O GYNNIG - GWASTRAFF NIWCLEAR |
|---|---|

Yn sgil yr ymgynghoriad presennol ar ddatblygu cyfleuster storio tanddaearol ar gyfer gwastraff niwclear, bod y Cyngor yn datgan yn glir na fydd yn derbyn cyfleuster o'r fath o fewn y Sir.

Cynigydd: Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan
Eilydd: Cynghorydd Sir Bryn Davies

**Ni fydd y ddau Adroddiad Moderneiddio Ysgolion yn cael eu hystyried cyn 2.00 p.m.**

| 15. | YSGOL POB OED LLANFYLLIN |
|---|---|

Trafod y cynigion ynglyn â sefydlu ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin i alluogi'r Cabinet i ystyried barn y Cyngor wrth wneud penderfyniad.
(Tudalennau 1191 - 1378)

| 16. | YSGOL G.G. BANW AC YSGOL YR EGLWYS YNG NGHYMRU (SEFYDLEDIG) LLANERFYL |
|---|---|

Trafod yr argymhelliad arfaethedig i'r Cabinet mewn perthynas ag Ysgol G.G. Banw ac Ysgol yr Eglwys yng Nghymru (Sefydledig) Llanerfyl, i alluogi'r Cabinet i ystyried barn y Cyngor wrth wneud penderfyniad.

(Tudalennau 1379 - 1686)

| 17. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

17.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethiant Corfforaethol, Tai a Gwarchod y Cyhoedd oddi wrth y Cynghorydd Sir Roger Williams**

Pa adnoddau sydd gan Gyngor Sir Powys i gefnogi aelodau o staff â phroblemau iechyd meddwl?
(Tudalennau 1687 - 1688)

17.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Dysgu a'r Gymraeg oddi wrth y Cynghorydd Sir Phil Pritchard**

Cwblhawyd adolygiad o Ysgolion Uwchradd De Powys rhyw 3 blynedd yn ôl, a chadarnhawyd y byddai adolygiad o Ysgolion Uwchradd Gogledd Powys yn dilyn yn fuan wedi hynny, gan gyfeirio'n arbennig at 3 ysgol uwchradd o fewn radiws o 11 milltir. Ni chynhaliwyd adolygiad o'r fath hyd yma. Byddwn yn ddiolchgar pe medrech gadarnhau pryd y bydd yr adolygiad ar gyfer Gogledd Powys yn cael ei gynnal (fel yr addawyd yn flaenorol), ac y bydd adolygiad yn cael ei gynnal o ryw 7 i 8 ysgol gynradd fechan, pob un ohonynt ryw 8 milltir o Lanfair Caereinion, gan ddod o hyd i arbedion posibl i Gyngor Sir Powys.
(Tudalennau 1689 - 1690)

17.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gofal Cymdeithasol Oedolion oddi wrth y Cynghorydd Sir Phil Pritchard**

Cytunodd y cabinet yn flaenorol pe na byddai Cynghorau Tref yn ymaflyd â chyfrifoldeb llawn am redeg y Canolfannau Dydd, byddai CSP yn eu cau, gan greu arbedion ariannol perthnasol a mawr iawn. Allwch chi fanylu ar gostau cadw'r holl Ganolfannau Dydd hyn ar agor hyd yma, a chadarnhau a fydd unrhyw adolygiad yn debygol gael ei gynnal yn y dyfodol agos. Yn enwedig mewn perthynas â'r cynnig arfaethedig sy'n cael ei awgrymu o gynnydd o 9.5% yn nhreth y cyngor.

(Tudalennau 1691 - 1692)

17.4. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd Ailgylchu ac Asedau oddi wrth y Cynghorydd Sir Kathryn Silk**

Pa ddarpariaethau sydd ar gael i sicrhau bod adeilad Llyfrgell gyfredol Aberhonddu yn Heol y Defaid yn cael ei gynnal mewn cyflwr sy'n gymesur â'i statws fel Adeilad Rhestredig?
(Tudalennau 1693 - 1694)

17.5. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Dysgu a'r Gymraeg oddi wrth y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

Mae Llywodraeth Lafur Cymru'n ymrwymedig i ddarparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'i hariannu gan y llywodraeth i rieni plant tair a phedair blwydd oed am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

A fydd y Cabinet datgan beth yw ei baratoadau i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant y mae Llywodraeth Cymru'n ei ariannu?
(Tudalennau 1695 - 1696)

17.6. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd Ailgylchu ac Asedau oddi wrth y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

Faint o gost y mae penderfyniad Cyngor Sir Powys i ddatblygu man glanio i hofrenyddion ar y Prom yn Aberhonddu wedi ei olygu i drethdalwyr?
(Tudalennau 1697 - 1698)

17.7. **Cwestiwn i'r Arweinydd oddi wrth y Cynghorydd Sir David Jones**

A fydd yr Arweinydd yn cyfeirio aelodau o'r cabinet i ateb cwestiynau atodol cyn i'r amser ddod i ben i holi cwestiwn dilynol yng nghyfarfod nesaf y cyngor?

17.8. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Dysgu a'r Gymraeg oddi wrth y Cynghorydd Sir David Jones**

Bu tuedd i leihau canran yr arian i ysgolion o gyfanswm y gyllideb addysg, ac ar yr un pryd i gynyddu canran yr arian i wasanaethau canolog. A oes ganddi unrhyw gynlluniau i droi'r duedd yma yn nôl, o ystyried arfer gorau?
(Tudalennau 1699 - 1700)

| 18. | MATERION WEDI'U HEITHRIO |
| --- | --- |

Mae'r Swyddog Monitro wedi penderfynu bod yr adroddiad canlynol yn destun categori 1 y Rheolau Trefn Mynediad at Wybodaeth. Ei farn o ran prawf lles y cyhoedd (wedi ystyried darpariaethau Rheol 14.8, Rheolau Mynediad at Wybodaeth y Cyngor), oedd y byddai gwneud y wybodaeth hon yn gyhoeddus yn groes i egwyddorion y Ddeddf Gwarchod Data ac yn datgelu data personol yn ymwneud ag unigolyn. Oherwydd hyn a chan nad oedd yn ymddangos bod yna galw mawr ymhlith y cyhoedd am ddatgelu'r data personol yma, roedd o'r farn bod diddordeb y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy pwysig na diddordeb y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. Gofynnir i Aelodau ystyried y ffactorau hyn wrth

benderfynu ar brawf lles y cyhoedd, a dylent benderfynu hyn wrth iddynt ystyried eithrio'r cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod.

| 19. | RHYBUDD O GYNNIG |
|---|---|

Y dylai'r Cyngor trafod, ystyried a gwneud unrhyw argymhellion i Swyddogion i gytuno eithriad un tro i Gynllun Dyrannu Tai y Cyngor i ddyrannu eiddo gwag i fam tenant sydd wedi marw yn y Trallwng er diddordeb plant y tenant sydd wedi marw yn unol â Rheoliadau Ewropeaidd Hawliau'r Plentyn, a deddfwriaeth arall.